

PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL SIR GAERFYRDDIN

PANEL ADOLYGU DYNLADDIAD DOMESTIG

ADRODDIAD

I FARWOLAETH 'ANN DAVIES'

Cynhyrchwyd yr adroddiad gan D.R. MacGregor (Cadeirydd Annibynnol)

Cyhoeddwyd Medi 2015

CYNNWYS

	Tudalen
Rhagair	3
Aelodaeth y Panel	4
Cyflwyniad	5
Y Broses Adolygu	6
- Dadansoddiad o ymwneud pob gwasanaeth ag Ann Davies	9
- Dadansoddiad o ymwneud pob gwasanaeth â Richard Thomson	12
Materion allweddol sy'n deillio o'r Adolygiad	20
Casgliadau ac Argymhellion	24

Atodiadau:-

1. Cwmpas a Chylch Gorchwyl yr Adolygiad
2. Cynllun Gweithredu
3. Crynodeb o'r Aseidiadau Risg a ddefnyddiwyd gan asiantaethau lleol
4. Amserlen mewn perthynas â chwblhau Adolygiad Rheoli Unigol
5. Cronoleg mewn perthynas ag 'Ann Davies'
6. Cronoleg mewn perthynas â 'Richard Thomson'

RHAGAIR

Mae'r Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn wedi cael ei gynnal i gydymffurfio â gofynion y Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref. Nod yr Adolygiad yw canfod y materion pwysicaf i roi sylw iddynt wrth ddysgu o'r Dynladdiad hwn a llunio argymhellion y gall asiantaethau lleol eu gweithredu a fydd yn cryfhau'r trefniadau sy'n bodoli eisoes.

Ni fuasai angen yr Adolygiad hwn pe bai'r trasiedi a darodd deulu lleol mwy na 12 mis yn ôl, ac y mae'r Adolygiad hwn yn canolbwyntio arno, heb ddigwydd. Er bod y gwaith yr oedd yn rhaid ei wneud yn canolbwyntio ar adolygu ymwneud asiantaethau lleol â'r dioddefwr a'r cyflawnwr, cynorthwywyd y broses gan gyfranogiad aelodau o deulu'r dioddefwr. Yma mae'n bwysig cydnabod bod aelodau o'r teulu'n dal i wynebu anawsterau wrth ddod i delerau â'u colled, a'r gobaith yw y bydd poen y golled hon yn dod ychydig yn haws iddynt ei oddef, gydag amser.

Yn erbyn y cefndir hwn, felly, mae'n angenrheidiol ac yn briodol cyfleu ein diolch a'n gwerthfawrogiad i'r teulu am y sylwadau a'r safbwyntiau a fynegasant o wirfodd. Diolch hefyd i'r cynrychiolwyr o'r asiantaethau gwahanol am y gwaith sylweddol a wnaed wrth gynhyrchu deunydd i'r Adolygiad ac am ymateb yn gadarnhaol i geisiadau am wybodaeth ychwanegol; yn arbennig pan oedd angen hon ar fyr rybudd.

AELODAETH Y PANEL		
Enw	Swydd	Asiantaeth/Sefydliad
David MacGregor	Cadeirydd Annibynnol	Amh.
Chris Burns	Prif Weithredwr Cynorthwyol	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Thomas	Rheolwr Diogelwch Cymunedol	Cyngor Sir Caerfyrddin
Simon Plant	Rheolwr – Bwrdd Lleol Diogelu Plant	Cyngor Sir Caerfyrddin
Frances Lewis	Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Plant	Cyngor Sir Caerfyrddin
Chris Beer	Rheolwr Dewisiadau Tai	Cyngor Sir Caerfyrddin
Christine Harley	Prif Weithredwr Cynorthwyol	Prawf Cymru
Debbie Osowicz	Dirprwy Bennaeth Uned Cyflenwi Leol	Prawf Cymru
Stuart Moncur	Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Sicrwydd, Ansawdd a Gwelliant	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gill Phillips	Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Steve Cockwell	Prif Arolygydd	Heddlu Dyfed-Powys
Neil Jenkins	Ditectif Arolygydd	Heddlu Dyfed-Powys
Louise Harries	Ditectif Ringyll	Heddlu Dyfed-Powys
Jason Smith	Rheolwr Gweithrediadau	Catalyst, Turning Point Cymru
Kevin Fisher	Prif Weithredwr	Helping Groups to Grow
Lisa Kieh	Rheolwr Sir Gaerfyrddin	Kaleidoscope Project
Tim Charlton	Rheolwr, Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau	Prism Cymru
Mark Richards	Pennaeth Gwasanaethau Tai	Cymdeithas Tai Bro Myrddin
Paul Sheridan	Rheolwr Sir Gaerfyrddin	The Wallich

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Y prif ddiben wrth gynnal Adolygiad Dynladdiad Domestig yw ei gwneud yn bosibl i ddysgu gwersi o ddynladdiadau lle caiff person ei ladd o ganlyniad i drais a cham-drin domestig. Er mwyn i'r gwersi hyn gael eu dysgu mor eang a thrylwyr ag sy'n bosibl, mae angen i weithwyr proffesiynol allu deall yn llawn beth ddigwyddodd ac, yn bwysicaf oll, beth mae angen iddo newid er mwyn lleihau'r risg y bydd trasiadau o'r fath yn digwydd yn y dyfodol. Er mwyn helpu i amddiffyn teulu'r dioddefwr, mae'r broses yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion yr holl unigolion gael eu gwneud yn ddiennw; yn yr adroddiad drwyddo draw, cyfeirir at y dioddefwr fel Ann ac at y cyflawnwr fel Thomson (h.y. nid eu henwau iawn).

1.2 Dim ond am ychydig wythnosau yr oedd Ann wedi bod mewn perthynas â Thomson cyn i'w chorff gael ei ddarganfod yn ei fflat yng Nghaerfyrddin. Ef oedd unig denant y fflat ac roedd yn byw yno ar ei ben ei hun. Ni wyddys beth oedd amser gwirioneddol ei marwolaeth, ond dangoswyd mai achos ei marwolaeth oedd clwyfau trywanu i ochr chwith y frest a'r cefn gan gynnwys yr ysgyfaint a'r galon. Cafodd Thomson ei erlyn am ei llofruddio; yn yr achos plediodd yn euog i'r trosedd hwn a chafodd ei ddedfrydu i garchar am oes. Ni wyddai'r teulu am unrhyw ddigwyddiadau blaenorol o drais domestig yn ystod eu perthynas fer.

1.3 Cafodd Ann ei geni yng Nghaerfyrddin a bu'n byw'n lleol drwy gydol ei bywyd. Roedd yn rhan o deulu mawr, yr oedd llawer ohonynt yn byw'n agos ac roedd ganddynt i gyd berthnasoedd cryf a chadarnhaol â'i gilydd. Hi oedd y bedwaredd o chwe brawd a chwaer ac roedd ganddi hithau dri o blant. Roedd yn adnabyddus i nifer o asiantaethau/sefydliadau lleol yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol. Ni fu ganddi berthnasoedd hirdymor sefydlog ag unrhyw un o'i phartneriaid ac mae'n hysbys y bu cam-drin domestig yn rhai o'r berthnasoedd hynny. Roedd ganddi hanes o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol ac roedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ers nifer o flynyddoedd. Roedd mam Ann ac aelodau eraill o'r teulu'n ei chefnogi mewn amrywiaeth o ffyrdd ac wedi gwneud ymdrechion sylweddol i'w hannog i roi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau oherwydd gallent weld yr effaith andwyol yr oeddent yn ei chael arni.

1.4 Roedd Ann yn denant i'r awdurdod lleol ac yn cynnal ei chartref ei hun, oedd hefyd yng Nghaerfyrddin. Roedd ei thri phlentyn yn byw gyda hi ac roedd disgwyl iddi ddychwelyd i'w chartref i fod gyda'i theulu yn ddiweddarach ar y noson y bu farw.

1.5 Ar adeg ei marwolaeth, roedd yn 37 oed; roedd ei merched yn 19 ac yn 14 oed ac roedd ei mab yn 11 oed. Ers yr adeg honno, mae'r teulu wedi gofalu am y plant iau; siaradodd llystad a mam Ann mewn modd cadarnhaol iawn am y ffordd mae'r ysgolion wedi cydweithio gyda hwy i gefnogi'r plant.

1.6 Mae Richard Thomson yn 29 oed ac yn dad i dri o blant. Mae ganddo hanes hir o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol a throseddu; mae ei gollfarnau'n cynnwys trais

domestig, lladrad, ymosod a delio mewn cyffuriau. Cafodd ei eni yn Watford ond symudodd y teulu i Aylesbury pan oedd yn ifanc iawn ac yn ddiweddarach i Sir Gaerfyrddin pan oedd yn ei arddegau. Dychwelodd Thomson i Aylesbury tua 2006; bu'n byw yno gyda chariad a chafodd ddau blentyn gyda hi.

1.7 Daeth y berthynas honno i ben ac wedyn daeth yn ôl i Sir Gaerfyrddin. Yn 2008 mae'n hysbys bod ganddo bartner o ardal Abertawe, y cafodd blentyn arall gyda hi. Bu hi'n byw gydag ef yng Nghaerfyrddin am gyfnod byr yn haf 2008, a gwyddys erbyn hyn bod trais domestig yn nodwedd arwyddocaol yn eu perthynas. Yn anffodus, ychydig iawn o'r trais domestig hwn y rhoddwyd gwybod amdano ond fe adawodd hi ef ac yna cafodd ei chynorthwyo am gyfnod gan Gymorth i Fenywod Abertawe. Mae agweddau o'r wybodaeth hon yn berthnasol yng nghyd-destun 'Rhannu Gwybodaeth' rhwng asiantaethau mewn ardaloedd cyfagos a chaiff y pwynt hwn ei esbonio'n ddiweddarach yn yr adroddiad.

1.8 Er mai dim ond am gyfnod byr iawn yr oedd Ann a Thomson wedi bod mewn perthynas, roedd y ddau wedi bod yn hysbys i asiantaethau lleol a/neu'n defnyddio gwasanaethau ers cryn dipyn o amser. Nid oedd Ann yn cyd-fyw gyda Thomson ac mae canfyddiadau'r Adolygiad yn cadarnhau nad oedd unrhyw un o'r asiantaethau lleol yn gwybod am y berthynas oedd yn datblygu gydag ef.

1.9 O ystyried hyn, ar y dechrau barnwyd nad oedd yr amgylchiadau'n galw am Adolygiad Dynladdiad Domestig ond yn dilyn gohebiaeth â'r Swyddfa Gartref, penderfynodd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol y byddai'n rhoi cychwyn ar Adolygiad Dynladdiad Domestig ac yn sefydlu Panel i wneud hyn.

2.0 Y BROSES ADOLYGU

2.1 Aethpwyd at yr holl asiantaethau statudol a sefydliadau trydydd sector lleol yr oedd yn hysbys eu bod wedi ymwneud o gwbl ag Ann neu Thomson a gofynnwyd iddynt ddynodi uwch gynrychiolydd i fod yn aelod o'r Panel. Wedi hynny canfuwyd asiantaeth arall oedd wedi ymwneud ag Ann ac ymaelododd ei chynrychiolydd hi â'r Panel yn ei gyfarfod cyntaf o sylwedd.

2.2 Cynhaliodd y Panel gyfarfod rhagarweiniol ar 9^{fed} Medi 2013 ac yn hwnnw cytunwyd:-

- Y dylid dynodi Cadeirydd Annibynnol i fod â chyfrifoldeb am ddrafftio'r Adroddiad
- Y dylai'r Cadeirydd ddrafftio'r Cylch Gorchwyl i gael ei drafod yn y cyfarfod nesaf

2.3 Yn ddiweddarach y mis hwnnw, cafodd unigolyn â phrofiad sylweddol mewn swyddi uwch reoli ym maes llywodraeth leol (gan gynnwys gweithio partneriaethol rhyngasiantaethol) ei ddynodi fel Cadeirydd Annibynnol posibl. Ymddeolodd o wasanaeth llywodraeth leol yn 2012 ond am dair blynedd ar ddeg cyn hynny, ni fu'n ymwneud i raddau arwyddocaol ag unrhyw un o'r asiantaethau dan sylw'r Adolygiad gan ei fod wedi'i gyflogi yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Cadarnhawyd ei benodiad gan y Panel yn ei gyfarfod cyntaf o

sylwedd a gynhaliwyd ar 17^{eg} Hydref 2013; yn y cyfarfod hwnnw, trafodwyd a chytunwyd ar y Cwmpas a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad ac mae'r rhain wedi'u cynnwys fel Atodiad 1.

2.4 Mae'r holl asiantaethau a sefydliadau y gwyddys eu bod wedi ymwneud ag Ann neu â Thomson wedi cymryd rhan yn yr adolygiad hwn o wirfodd, sef:-

- *Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru* – Mae'r asiantaeth hon yn rhan o'r amrywiaeth o wasanaethau GIG a ddarperir yn Sir Gaerfyrddin gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gomisiynydd ac yn ddarparwr gwasanaethau i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau.
- *Turning Point* – Sefydliad trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae wedi darparu gwasanaeth Catalyst yn Sir Gaerfyrddin dros y 5 mlynedd diwethaf; mae hwn yn darparu amrywiaeth o ymyriadau lled-strwythuredig i bobl sy'n pryderu am eu defnydd eu hunain o gyffuriau neu am ddefnydd rhywun arall o gyffuriau neu alcohol
- *Helping Groups to Grow (HG2G)* – Sefydliad trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau cwnsela; mae'r cyfranogwyr yn cael eu hatgyfeirio gan asiantaethau lleol eraill
- *The Wallich* – Sefydliad trydydd sector a gomisiynir i ddarparu gwasanaeth cymorth â thenantiaeth sy'n cynorthwyo pobl â phroblem camddefnyddio sylweddau i gael neu gynnal eu tenantiaeth. Mae'r gwasanaeth yn ategol i driniaeth, gyda'r nod o gynorthwyo â datblygu llety sefydlog a sicr gan fod hyn yn galluogi sylfaen gadarn i driniaeth ddiogel, effeithiol a ffocysedig.
- *Cyngor Sir Gaerfyrddin* – Awdurdod unedol â chyfrifoldeb statudol am gomisiynu neu ddarparu'n uniongyrchol y sbectrwm o wasanaethau llywodraeth leol. Mae dau o'i brif feysydd gwasanaeth wedi cyfrannu at yr Adolygiad, sef:-
 - Gwasanaethau Plant
 - Gwasanaethau Tai
- *Heddlu Dyfed-Powys*- yr Asiantaeth statudol sy'n darparu'r Gwasanaeth Heddlu i Sir Gaerfyrddin gyfan
- *Prawf Cymru* – Yn yr un modd, yr asiantaeth statudol sy'n darparu'r gwasanaeth prawf yn yr ardal leol
- *Prism* – gwasanaeth trydydd sector sy'n cynghori ar gyffuriau ac alcohol yng ngorllewin Cymru a gomisiynir i ddarparu Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yn Sir Gaerfyrddin
- *Kaleidoscope* – Sefydliad trydydd sector sy'n arbenigo mewn gwasanaethau cyffuriau ac alcohol ac sy'n cydweithio â'r Gwasanaeth Prawf i ddarparu gwasanaeth Adsefydlu Cyffuriau yn yr ardal leol
- *Cymdeithas Tai Bro Myrddin* – Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

2.5 Mae pob un o'r cyrff hyn wedi darparu cronoleg fanwl o'u hymwneud â'r naill barti neu'r llall rhwng mis Ebrill 2008 a mis Rhagfyr 2012. Yn unol â'r gofynion a nodir yn Atodiad 1 i

Ganllawiau'r Swyddfa Gartref, mae pob corff hefyd wedi darparu dadansoddiad o'i ymwneud, gan nodi diben a natur hyn, a ddilynwyd eu polisiau a'u gweithdrefnau mewnol, ac unrhyw wersi maent wedi'u dysgu. Cafodd yr holl wybodaeth a ddarparwyd ei dadansoddi a gofynnwyd am eglurhad pryd bynnag yr oedd angen. Mae rhai wedi gwneud argymhellion a fyddai'n gwella eu hymateb o ran gwasanaeth. Mae'r Panel wedi ystyried pob un o'r rhain a hefyd wedi llunio nifer fach o argymhellion ar y cyd; caiff y rhain eu hesbonio'n llawn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

2.6 Dywedwyd wrth y Panel bod Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru wrthi'n cynnal ymchwiliad / adolygiad o'r digwyddiad yn unol â gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru. Ni ddywedodd unrhyw asiantaethau eraill eu bod yn cynnal adolygiadau cyfochrog.

2.7 Nid oedd angen i'r Crwner gynnal cwest gwrandawriad llawn oherwydd mewn achosion lle mae'r farwolaeth yn destun achos troseddol, bydd y cwest yn cael ei ohirio hyd nes i'r ymchwiliadau hynny gael eu cwblhau. Yn dilyn y treial llofruddiaeth, roedd yn amlwg bod yr holl gwestiynau angenrheidiol wedi cael eu hateb o ran pwy oedd wedi marw, pryd, ble a sut. Pan gafodd Thomson ei gyhuddo o'i llofruddio, ar y dechrau pleidio yn 'Ddieuog' a daliodd i bledio felly mewn nifer o wrandawiadau dilynol, ond yn union cyn dechrau ei dreial yn Llys y Goron, newidiodd ei ble i 'Euog'. Cafodd ei ddedfrydu i garchar am oes, gydag argymhelliad gan y Barnwr iddo fod yn y carchar am o leiaf pedair blynedd ar ddeg.

2.8 Dywedwyd wrth deulu Ann beth yw diben yr Adolygiad. Roeddent yn gadarnhaol iawn eu barn am y cymorth a'r gwasanaethau a ddarparwyd iddi gan asiantaethau lleol. Esboniodd mam Ann fod ei theulu wedi cael ei 'rwygo'n ddarnau' gan y llofruddiaeth ac roedd yn amlwg iawn ei bod hi ac eraill yn y teulu'n dal i gael trafferth i ddod i delerau â'r hyn oedd wedi digwydd. Gofynnwyd iddynt am y cymorth i ddiodefwrwr a'r gwasanaethau eraill a ddarparwyd iddynt ers marwolaeth Ann ac wrth ymateb, dywedasant nad oedd ganddynt unrhyw gwynion a mynegasant werthfawrogiad didwyll ohonynt.

2.9 Cadarnhaodd y teulu fod y berthynas oedd gan Ann â Thomson yn newydd ac wedi para ond ychydig o wythnosau; dywedodd ei mam mai dim ond unwaith yr oedd wedi cwrdd ag ef pan ddaeth i gyngerdd ysgol gydag Ann. Roedd hi'n glir mai ychydig yr oedd yn ei adnabod, ond ychwanegodd na chredai y byddai'r berthynas wedi para llawer yn hirach. Soniodd am y ffaith fod un o'i meibion wedi dweud wrth Ann fod ganddo farn negyddol am Thomson gan ei fod wedi cael rhywfaint o wybodaeth am ei gefndir a'i duedd i fod yn dreisgar trwy weithio gyda thad Thomson. Cyfeirir yn ddiweddarach at gyflwyno'r Cynllun Datgelu Trais Domestig newydd a adwaenir fel "Cyfraith Clare", gan y bydd hwn yn cynnig y gallu i gael gwybodaeth am unigolion o'r fath i deuluoedd sydd mewn sefyllfaoedd tebyg.

2.10 Ni chysylltwyd â theulu Thomson i roi gwybod iddynt am yr Adolygiad ac ni chynigiwyd cyfle iddynt gymryd rhan. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, ystyriwyd cofnod troseddol helaeth Thomson, gwybodaeth gefndir ar elfennau o hwn a'r dystiolaeth o gydgyllwyn rhwng Thomson a'i rieni mewn perthynas ag agweddau ar ei ymddygiad.

2.11 Cafodd holl gofnodion iechyd Ann a Thomson (h.y. gan gynnwys cofnodion meddygon teulu a gofal eilaidd) eu hadolygu gan y Bwrdd Iechyd fel rhan o'r gwaith a wnaethpwyd gan Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru i lunio'r ddau Adolygiad Rheoli Unigol.

2.12 Dylid nodi hefyd nad yw'r Adolygiad wedi canfod unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yr oedd angen eu hystyried yn benodol.

2.13 Fel y nodwyd eisoes, nid oedd unrhyw un o'r asiantaethau lleol yn gwybod am y berthynas yr oedd Ann wedi'i magu gyda Thomson gan na fu unrhyw ymwneud â hwy fel cwpl. O ystyried hyn, ymchwiliodd yr Adolygiad i ymwneud asiantaethau lleol â'r ddau ohonynt fel unigolion, er mwyn canfod a ellid dysgu unrhyw wersi. Mae'r dadansoddiadau cryno canlynol yn adlewyrchu'r canfyddiadau o'r gwaith hwn.

Dadansoddiad o ymwneud gwasanaethau

Parthed: Ann

Rhestrir isod yr asiantaethau a'r sefydliadau yn Sir Gaerfyrddin oedd ag unrhyw fath o ymwneud ag Ann rhwng 2008 a 2012:-

Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru

Turning Point (Catalyst)

Helping Groups to Grow (HG2G)

The Wallich

Cyngor Sir Caerfyrddin – Gwasanaethau Plant

Cyngor Sir Caerfyrddin – Gwasanaethau Tai

Heddlu Dyfed-Powys

2.14 Canfu'r Adolygiad dystiolaeth gref o weithio rhyngasiantaethol da gydag Ann ac atgyfeiriadau priodol rhwng asiantaethau lleol i ddarparu cymorth iddi; roedd y prif rai yn gysylltiedig â darparwyr gwasanaeth camddefnyddio sylweddau a chymorth tai. Roedd ei hymwneud â'r gwasanaethau hyn yn gwbl wirfoddol a dywedodd nifer ohonynt fod eu cofnodion yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd Ann yn ymgysylltu'n dda â hwy bob amser, ac eithrio ar adegau o argyfwng, ac ar ôl i'r adegau hyn ddod i ben, ei bod yn tueddu i dynnu'n ôl o'r rhwydweithiau cymorth oedd ar gael iddi.

2.15 Cafodd Ann gymorth gan Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru a darparwyr gwasanaethau eraill wedi'u comisiynu, rhwng mis Gorffennaf 2010 a mis Gorffennaf 2012. Gwnaethpwyd atgyfeiriadau hefyd i asiantaethau partner i sicrhau

gwasanaethau cymorth tai a chymorth â bywyd bob dydd iddi; darparwyd y gwasanaethau hyn rhwng mis Awst 2011 a mis Tachwedd 2012.

2.16 Yn 2010 gwnaethpwyd asesiad cynhwysfawr amserol ar y cyd rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau gofal cymdeithasol oherwydd y pryderon ynghylch yr effaith y gallai ei defnydd o gyffuriau ei chael ar ei phlant/teulu. Yn ystod triniaeth wedi hynny, gwnaeth gynnydd sylweddol o ran ei defnydd o gyffuriau, ac ymsefydlodd ei sefyllfa. Fodd bynnag, nid oedd wedi gallu mynd i'r afael ag unrhyw broblemau sylfaenol oedd wedi effeithio ar ei hanes o gamddefnyddio sylweddau a'r agweddau ar ei bywyd yr oedd ei lefel gorbryder yn effeithio arnynt.

2.17 Er bod gorbryder yn broblem i Ann, roedd fel petai wedi ei fabwysiadu fel ffordd o fyw / ymddygiad wedi'i ddysgu ac er gwaethaf ymdrechion, cyfyngedig oedd y llwyddiant o ran ei darbwylo i gael triniaeth strwythuredig h.y. gwaith grŵp, cwnsela. Oherwydd mai ysbeidiol oedd ei phresenoldeb, roedd yn anodd meithrin perthnasoedd therapiwtig a gwneud gwaith yn unigol mewn cysylltiad â'i gorbryder. Mae asiantaethau lleol wedi adolygu eu hymwneud ac yn credu bod y gofal a gafodd Ann yn briodol o ran ei chamddefnyddio o sylweddau a'i hanghenion a nodwyd ar y pryd. Roedd cyfathrebu da rhwng yr asiantaethau gwahanol o dan ambarél y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a chydweithio da, yn enwedig ar adegau trosglwyddo.

2.18 O ran trais domestig yn benodol, mae cofnodion Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru'n nodi bod Ann wedi dweud ei hun fod ganddi hanes o ymwneud â'r math anghywir o ddynion. Cynhaliwyd trafodaethau gyda hi yn ystod sesiynau unigol ynghylch y ffaith ei bod yn agored i niwed o ran perthnasoedd â dynion. Yn sgil yr Adolygiad, mae'r Panel yn barnu bod angen i asiantaethau ymrwymo i gydweithio i ddatblygu ymatebion o ran gwasanaeth a chynnig gwell system gymorth i fenywod agored i niwed sydd wedi profi trais domestig ac sy'n camddefnyddio sylweddau, sy'n tueddu i beidio ag ymgysylltu'n dda.

2.19 Mae tystiolaeth o gydweithio a chyfathrebu da rhwng Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru a darparwyr gwasanaethau eraill; gwnaethpwyd atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau cymorth tai, cymorth â sicrhau budd-daliadau ac anghenion eraill a nodwyd. Mae'n bwysig rhoi sylw i'r mathau hyn o faterion er mwyn sicrhau platfform sefydlog i ddarbwylo cleient i gael triniaeth fwy strwythuredig a all fod yn ddiogel, yn effeithiol ac yn ffocysedig. Yn sail i'r dull hwn mae cydweithio, cyd-adolygiadau rheolaidd, a rhannu gwybodaeth berthnasol.

2.20 Mae cofnodion yn dangos bod dull rhagweithiol a chefnogol wedi cael ei fabwysiadu. Roedd llawer o'r cymorth wythnosol yn cynnwys atgoffa Ann i wneud apwyntiadau, ac yn achlysurol mynd â hi iddynt, er mwyn cyfyngu ar ganlyniadau Ann yn peidio â mynd iddynt. Er bod hyn yn sicrhau ei sefyllfa gartref ac yn darparu cymorth hanfodol i Ann, cynnydd cyfyngedig a welwyd o ran hi'n cymryd mwy o gyfrifoldeb personol am y tasgau hyn a magu hyder.

2.21 Mae cofnodion asiantaethau lleol hefyd yn cynnwys sawl cyfeiriad at 'broblemau teuluol'; y plant oedd testun y rhain, er enghraifft presenoldeb yn yr ysgol. Roedd yn hysbys bod y teulu estynedig yn gefnogol iawn i Ann a'i phlant a'r teulu oedd yn delio â phroblemau o'r fath.

2.22 Daethpwyd i'r casgliad bod yr argyfyngau yr oedd yn mynd drwyddynt wedi'u seilio ar ei hanallu i ymdopi â rhai o faterion ymarferol bywyd bob dydd, a gâi eu gwaethygu gan gamddefnyddio sylweddau. Cydnabuwyd hefyd ei bod yn defnyddio sylweddau fel cymorth i ymdopi, y credai ar gam ei fod yn ei helpu pan oedd hi mewn argyfwng.

2.23 Nid oedd unrhyw bryderon gweithredol ynghylch trais domestig yn ystod y cyfnod yr oedd Ann yn ymwneud â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a/neu gymorth tai, ac felly nid oedd angen mynd ymlaen i atgyfeiriad o dan drefniadau Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg. Roedd arwahaniad yn peri mwy o bryder; yn ystod y cyfnod hwn roedd y risgiau'n isel ac roedd wedi sicrhau mwy o sefydlogrwydd.

2.24 Yn y cyfnod mae'r Adolygiad yn ymdrin ag ef, ni fu Ann gerbron y Llysoedd ac ni fu unrhyw ymwneud parhaus ag unrhyw un o'r asiantaethau cyfiawnder troseddol. Roedd nifer fach o broblemau mewn perthynas â'i phlant a arweiniodd at ymwneud gan yr heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol, a gafodd eu datrys yn lleol. Roedd hefyd problem yn gysylltiedig â'i pherthynas â pherson arall y credwyd ei fod yn ymwneud â chyflenwi cyffuriau, a chanfu'r gwaith a wnaed gan yr Heddlu i'r Adolygiad nad oedd unrhyw gofnod bod gwybodaeth am ei pherthynas â defnyddiwr heroin wedi cael ei rhannu â'r gwasanaethau cymdeithasol.

2.25 Mae'n anochel y bydd plant a theuluoedd yn cael sylw mewn ymchwiliadau i fasnachu mewn cyffuriau; mae'r Heddlu'n cydnabod ei bod yn hollbwysig i 'ddiogelu plant' fod yn nodwedd o'r trefniadau wrth gefn i ymchwiliadau o'r fath. Maent hefyd yn cydnabod y dylid bod wedi rhannu gwybodaeth benodol gydag asiantaethau partner ac yn dweud bod trefniadau cryfach yn bodoli erbyn hyn i sicrhau y bydd hynny'n digwydd.

2.26 Cyn 2012 nid oedd atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cofnodi yn yr un ffordd bob amser, ac roedd pob asiantaeth yn dibynnu ar weithdrefnau cofnodi'r asiantaeth oedd yn cael yr atgyfeiriad. Barnwyd nad oedd rhannu gwybodaeth yn anffurfiol yn ddibynadwy, ac felly un o amcanion yr Uned Atgyfeiriadau Ganolog a sefydlwyd yn 2012 oedd ffurfioli trefniadau rhannu gwybodaeth.

2.27 Ysbeidiol a lefel isel oedd ymwneud y Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant). Y dull o ran gwasanaeth oedd cynnig cymorth gan nad oedd y pryderon yn cyrraedd y trothwy sy'n gysylltiedig â chysyniad niwed arwyddocaol sy'n cyfiawnhau ymyrraeth orfodol er mwyn amddiffyn plant. Dechreuwyd ar asesiad craidd yn 2010 ond fe'i gadawyd wedi hynny gan fod Ann a'i phlant yn parhau i beidio ag ymgysylltu, oedd yn golygu na ellid cwblhau asesiad a fyddai'n ystyrlon. Fodd bynnag, roedd cysylltu rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau plant ynghylch y sefyllfa a dealltwriaeth o'r angen i gysylltu â gwasanaethau plant eto pe bai pryderon yn codi am y plant. I gydnabod yr effaith mae newid gweithwyr cymdeithasol yn ei chael ar deuluoedd ac nid o ganlyniad

uniongyrchol i'r uchod, mae'r ymateb o ran gwasanaeth wedi cael ei ddiwygio; er mwyn darparu mwy o ddilyniant, erbyn hyn mae'r un gweithiwr cymdeithasol yn parhau o'r asesiad cychwynol i'r asesiad craidd.

2.28 I grynhoi, y prif ganfyddiad o'r gwaith a wnaed oedd bod tystiolaeth gref o weithio rhyngasiantaethol da gydag Ann ac atgyfeiriadau priodol rhwng gwasanaethau lleol i ddarparu cymorth iddi; roedd y prif rai'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a chymorth tai. Roedd yn galonogol clywed bod teulu Ann hefyd yn gadarnhaol ynghylch y cymorth a'r gwasanaethau a ddarparwyd iddi.

2.29 Mae'n drasig ac yn eironig bod Ann, ar ôl cyfnod hir o deimlo ar wahân a dioddef o baranoia a gorbryder eithafol, wedi magu mwy o hyder, fod ei hanawsterau ariannol wedi cael eu datrys i raddau helaeth, a'i bod wedi mynd yn ôl i gymdeithasu gydag eraill. Mae'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu mai dim ond dros ychydig o wythnosau cyn iddi farw yr oedd ei pherthynas â Thomson wedi datblygu. Roedd wedi gwneud cynnydd da ac nid oedd yn cael cymorth mwyach gan unrhyw un o'r asiantaethau lleol; mae'n gwbl ddealladwy, felly, nad oedd unrhyw un o'r asiantaethau hynny'n gwybod am eu perthynas.

Parthed: Thomson

Rhestrir isod yr asiantaethau yn Sir Gaerfyrddin oedd ag unrhyw fath o ymwneud â Thomson rhwng 2008 a 2012:-

Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru

Prism

Kaleidoscope

Prawf Cymru

Heddlu Dyfed-Powys

Cyngor Sir Caerfyrddin – Gwasanaethau Tai (Digartrefedd)

Cymdeithas Tai Bro Myrddin

2.30 Mae'r Adolygiad hefyd wedi canfod tystiolaeth o weithio rhyngasiantaethol da gyda Thomson, gwaith da wrth rannu gwybodaeth ac arferion da. Fodd bynnag, nid felly y bu yn gyson ac mae rhai bylchau wedi cael eu canfod. Mae gwybodaeth gywir yn anhepgor ar gyfer Aseidiadau Risg da ac mae rhai gwendidau wedi cael eu canfod mewn trefniadau lleol ar gyfer rhannu gwybodaeth, sydd yn anochel yn effeithio ar effeithiolrwydd y rhain.

2.31 Mae gan Thomson gofnod troseddol helaeth a ddechreuodd pan oedd yn 14 oed. Cofnodwyd ei gollfarn gyntaf am ymosod pan oedd yn 15 oed ac ers hynny mae wedi cael cyfnodau niferus o gael ei gadw / garcharu ynghyd ag amrywiaeth o gosbau eraill am y

troseddau mae wedi'u cyflawni. Yn ystod y cyfnod sydd o fewn cwmpas yr adolygiad h.y. rhwng mis Ebrill 2008 a mis Rhagfyr 2012, cafodd nifer o gollfarnau gan gynnwys rhai am ymosodiadau ar swyddogion heddlu (ym mis Rhagfyr 2008 a mis Mai 2011), difrod troseddol (lloches Cymorth i Fenywod ym mis Rhagfyr 2008) a'r ymosodiad ar ei fam (ym mis Ebrill 2012), y cafodd ei garcharu amdano ym mis Mehefin 2012. Roedd yn hysbys i rai asiantaethau fel cyflawnwr Trais Domestig.

2.32 Roedd trais corfforol ac ymddygiad gormesu a cham-ddylanwadu yn nodweddiadol o'i berthnasoddd gyda menywod, ond fel arfer, ychydig iawn o hyn y rhoddwyd gwybod amdano ac felly nid oedd yn hysbys i asiantaethau lleol. Daeth tystiolaeth o hyn i'r golwg yn dilyn dynladdiad Ann ac erbyn hyn gwyddys bod cynbartner i Thomson wedi dioddef llawer o drais domestig yn ystod y cyfnod (tua 12 mis) y parodd eu perthynas rhwng 2008 a 2009. Roeddent yn cyd-fyw yng Nghaerfyrddin am gyfnod byr yn haf 2008. Aeth Jane (nid dyna ei henw iawn) yn feichiog â'i blentyn ond o ganlyniad i'r trais domestig a ddioddefodd, ffodd gyda'i mab ifanc i dŷ diogel o eiddo Cymorth i Fenywod yn Abertawe.

2.33 Aeth ef ar ei hôl, ac roedd Cymorth i Fenywod yn pryderu am y risgiau roedd yn eu hachosi a gofynnodd am i'r sefyllfa gael ei hatgyfeirio o dan drefniadau Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg. Cafodd eu plentyn ei eni mewn ysbyty yn Abertawe ym mis Chwefror 2009 ac wrth i Jane gael help ac amddiffyniad gan asiantaethau lleol yn ardal Abertawe roedd angen iddi gael ei symud sawl gwaith, a threuliodd gyfnodau mewn llochesi yng Nghastell-nedd, Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr.

2.34 Cafodd yr Adolygiad gymorth trwy allu gweld gwybodaeth a gedwir gan Gymorth i Fenywod Abertawe ac adran Gwasanaethau Cymdeithasol Dinas a Sir Abertawe am eu perthynas a'r plant ynddi. Er bod trais domestig yn nodwedd o'r berthynas, ychydig iawn o'r hyn y gwyddys erbyn hyn ei fod wedi digwydd y rhoddwyd gwybod amdano ar y pryd. Yn ystod eu perthynas, ac ar adegau ers hynny, profodd Jane deimladau o hunanddelwedd a hunanwerth isel, amheuaeth, ofn, ansicrwydd, ac arweiniodd hyn iddi fod yn ymostyngol i'w ddylanwad.

2.35 Mae cofnodion Cymorth i Fenywod a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Abertawe yn dangos agweddau ar ei ymddygiad gormesol a threisgar tuag at ei bartner blaenorol. Roedd ei dau blentyn ar Gofrestr Amddiffyn Plant Abertawe rhwng mis Ebrill 2009 a mis Rhagfyr 2009 gan y barnwyd eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin yn gorfforol ganddo. Mae'r trais domestig a ddioddefodd Jane yn berthnasol i'r Adolygiad hwn oherwydd, er na roddwyd gwybod amdano ar y pryd, gwyddys erbyn hyn bod nifer o achosion difrifol o drais domestig wedi digwydd yn Sir Gaerfyrddin yn 2008.

2.36 Parhaodd ef i fyw yn Sir Gaerfyrddin ac mae cofnodion o Gymorth i Fenywod a'r awdurdod lleol yn Abertawe yn dangos ei fod wedi cael perthnasoddd eraill hefyd. Nid oedd dim o hyn yn hysbys i Heddlu Dyfed-Powys na'r Gwasanaethau Plant yn Sir Gaerfyrddin gan fod y broses Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn canolbwyntio ar y dioddefwr ac ymwneud asiantaethau yn ardal gartref Jane sef Abertawe. Mae hyn yn tynnu sylw at her i

asiantaethau ynghylch pa wybodaeth i'w rhannu pan mae dioddefwyr a chyflawnwyr yn byw mewn ardaloedd gweinyddol gwahanol.

2.37 Mae'r Swyddfa Gartref yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno Marciwr Rhybuddio ychwanegol i dynnu sylw at ad-gyflawnwr Camdriniaeth Ddomestig. Byddai Thomson yn cael ei gategoreiddio fel cyflawnwr mynych a bydd hyn yn peri iddo gael marciwr ychwanegol cyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu a elwir marciwr Cyflawnwr Mynych Camdriniaeth Ddomestig ond nid yw hyn wedi dod i rym eto.

2.38 Mae datganiadau gan dystion yn yr ymchwiliad i lofruddiaeth Ann yn darparu tystiolaeth bod Thomson, er bod y berthynas yn un newydd, yn ceisio camddywanwadu ar Ann a'i rheoli a'i hatal rhag bod mewn cysylltiad â ffrindiau eraill. Roedd ei ymddygiad tuag ati'n debyg i'w ymddygiad tuag at ei bartner blaenorol bron pedair blynedd yn gynharach.

2.39 Roedd yr asiantaethau yn Sir Gaerfyrddin oedd â chyfnodau sylweddol o ymwneud â Thomson rhwng 2008 a 2013 mewn Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ac yn Prawf Cymru. Roedd gan y Gwasanaeth Prawf rôl weithredol gyda Thomson dros nifer o flynyddoedd, a chyfeirir ato drwy gydol ei daith triniaeth gyda'r Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r cyfnod olaf o driniaeth rhwng mis Medi 2012 a mis Ionawr 2013 nid oedd y Gwasanaeth Prawf yn ymwneud ag ef gan nad oedd unrhyw rôl ffurfiol iddynt. Mae Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru'n ystyried bod ymwneud gan y Gwasanaeth Prawf yn beth cadarnhaol, ac wedi canfod, pan fo'r Gwasanaeth Prawf yn ymwneud ag achosion, eu bod yn chwarae rhan bwysig mewn goruchwyllo'r agweddau cyfiawnder troseddol a ffocws ar gyfer rhannu gwybodaeth a rheoli'r risgiau ehangach.

2.40 O gofio proffil risg yr unigolyn hwn, bernir y byddai cyfarfod amlasiantaethol gyda'r asiantaethau penodol oedd yn ymwneud ag ef i lunio cydgyngllun rheoli gofal o'r risgiau dynodedig a'r nodau i'r unigolyn hwn wedi bod o fudd, o bosibl, i'r gymuned ac i bawb oedd yn ymwneud ag ef. Mae hon yn swyddogaeth diogelu bwysig yn y mathau hyn o achosion ac yn absenoldeb ymwneud gan y Gwasanaeth Prawf, nid oedd unrhyw fforwm amlasiantaethol sy'n cynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, ond sy'n ehangach na hwy, a fyddai'n cefnogi ymateb amlasiantaethol i rannu gwybodaeth a rheoli'r math hwn o achos.

2.41 Mae'r Panel yn barnu bod cyflwyno'r gwasanaeth Rheoli Integredig Troseddwyr yn lleol yn ddiweddar yn gam pwysig a chadarnhaol a fydd yn gwella'r ffordd y rhennir gwybodaeth ac felly'n gwella'r trefniadau Rheoli Risg sy'n cael eu creu gan asiantaethau lleol. Bydd y fenter newydd hon yn edrych ar garfan o ad-droseddwyr ac mae'n cael ei chyd-ddatblygu trwy ddull partneriaethol a gomisiynwyd rhwng Prawf Cymru a Chymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru. Mae gwaith da wrth rannu gwybodaeth yn fwy tebygol o fodoli pan fo unigolion yn yr asiantaethau gwahanol yn meithrin cysylltiadau anffurfiol cryf. Bydd cyflwyno cyfarfodydd wythnosol Rheoli Integredig Troseddwyr yn helpu i hwyluso hyn ac mae'r Panel yn awgrymu'n gryf y dylai mwy o asiantaethau ymwneud â'r rhain.

2.42 Gwnaed yr atgyfeiriad olaf ym mis Gorffennaf 2012 gan y tîm Cwnsela, Asesu, Atgyfeirio, Cyngori ac Ôl-ofal (CAACO) yng ngharchar Caerloyw wrth baratoi i'w ryddhau o'r carchar yn y mis Medi. Bu cysylltu priodol rhwng asiantaethau camddefnyddio sylweddau lleol ac aeth Thomson i'w apwyntiad asesu gyda'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau ym mis Medi 2012 ar ôl cael ei ryddhau. Mae'r rhestr wirio asesu'n dangos mai isel oedd risg trais ac ymosodedd fel y'i mesurwyd gan y Dull Integredig ar gyfer Asesiad Trylwyr o Gamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru. Mae'r Panel yn credu bod y gwahaniaeth rhwng canlyniad y Dull Integredig ar gyfer Asesiad Trylwyr o Gamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru a chanlyniad asesiadau risg a wnaed gan asiantaethau eraill yn destun pryder.

2.43 Mae ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan yr asiantaeth sy'n atgyfeirio'n un o'r elfennau allweddol mewn unrhyw asesiad, gan ei fod yn helpu wrth nodi'r meysydd pryder sy'n cael blaenoriaeth ar yr adeg benodol honno. Roedd y wybodaeth atgyfeirio a ystyriwyd gan y Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau wrth i Thomson gael ei ryddhau o'r carchar ym mis Medi 2012 wedi'i seilio ar Ffurflen Atgyfeirio Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau a roddwyd iddynt, yn nodi ei anghenion o ran presgripsiynau a hanes ei ddefnydd anghyfreithlon. O ran ei hanes troseddu, cyfyngedig oedd y wybodaeth oedd ar gael o'r atgyfeiriad; roedd yn anghyflawn a hefyd roedd ynddi nifer o wallau. Yn arwyddocaol, ni thynnodd sylw at y ffaith bod cyfnod diweddaraf Thomson yn y carchar yn gysylltiedig ag ymosodiad difrifol ar ei fam, er y nododd amrywiaeth o ddedfrydau hanesyddol eraill o garchar am droseddau fel lladrad, cyflenwi a meddu ar gyffuriau. O ganlyniad i hyn, collwyd cyfle yn y rhaglenni triniaeth a therapi wedi hynny i ymgysylltu'n uniongyrchol ag ef mewn perthynas â'r achosion cynyddol o ymddygiad treisgar.

2.44 Roedd y broses rheoli risg a ddefnyddiwyd gan yr asiantaeth arweiniol wedi'i chwblhau'n llawn a nododd yr holl feysydd pryder oedd yn hysbys. Yn bennaf roedd y cynllun rheoli risg yn canolbwyntio ar ddarparu ymyriadau lleihau niwed i leihau'r meysydd risg dynodedig. Roedd hyn yn cynnwys parhau â phresgripsiwn am amnewidyn gan y Gwasanaeth Rhagnodi Mynediad Cyflym, gwaith atal atgwmpo mewn cysylltiad â'i gamddefnydd o gyffuriau ac alcohol, i wella hunan-dyb oedd yn gysylltiedig â hwyliau isel a hanes o drais domestig yn y gorffennol.

2.45 Mae pob asesiad risg yn golygu ystyried y 'Tebygolrwydd' y bydd rhywbeth yn digwydd a'r 'Effaith' neu'r 'Canlyniadau' a allai deillio ohono. Mae cywirdeb y wybodaeth a ystyrir yn y broses yn dylanwadu'n drwm ar werth yr ymarfer ac mae'r Adolygiad hwn wedi canfod y bu rhai bylchau yn hyn o beth. Barnodd hefyd fod angen i Asesiadau Risg fod ag elfen gref o edrych tuag allan a hefyd cynnwys amgylchedd y cartref, nid canolbwyntio'n unig ar y risgiau i'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r staff sy'n gweithio gydag ef.

2.46 Mae tystiolaeth o weithgarwch rhyngasiantaethol parhaus da a chyfathrebu da rhwng gweithwyr proffesiynol, yn arbennig mewn perthynas â diwallu anghenion yr unigolyn hwn. Roedd ei driniaeth yn eithaf penodol i'r anghenion o ran camddefnyddio sylweddau ac o ran gofal iechyd cyffredinol cysylltiedig. Roedd hyn ynddo'i hun yn dasg anodd gan fod ei symbyliad a'i bresenoldeb yn amrywio'n rheolaidd. O safbwynt gwasanaeth aethpwyd i ganolbwyntio ar sicrhau ei fod yn ymgysylltu o hyd â'r driniaeth er mwyn lleihau rhagor o

risgiau iddo ef, ac ar yr un pryd dal i gofio am ei botensial i fod yn dreisgar a'r risgiau ehangach o ran diogelwch cymunedol.

2.47 Cydnabu nifer o'r asiantaethau fod angen medrusrwydd mawr a dull cydgysylltiedig i weithio gyda phobl sydd â dibyniaethau cronig nad oes ganddynt ddigon o symbyliad nac adnoddau yn gyson i frwydro yn erbyn eu caethiwed. Mae unrhyw driniaeth weithredol yn dibynnu ar ymroddiad a symbyliad yr unigolyn dan sylw.

2.48 Mae cyfraniadau gan asiantaethau a gymerodd ran yn yr Adolygiad hwn yn nodi bod angen rhagor o hyfforddiant i'r staff ar y technegau a'r dulliau i'w defnyddio pan nad yw unigolion yn 'bwrw eu bol' neu pan maent yn osgoi trafod materion sensitif; mae'n bwysig mynd y tu ôl i'r 'ffrynt' hwn er mwyn gallu asesu a oes angen unrhyw ymyriadau ychwanegol o ran gwasanaeth.

2.49 Trwy'r asesiad cyn dedfrydu yn 2009, canfu Prawf Cymru fod yna bryderon o ran camdrin domestig ac amddiffyn plant a chafwyd tystiolaeth o ymgysylltu a chysylltu da rhwng Prawf Cymru a'r Gwasanaethau Plant yn Abertawe ac yn Aylesbury.

2.50 Fel y nodwyd eisoes, cafodd ei bartner blaenorol a ddiodeffodd gamdriniaeth ddomestig ei hatgyfeirio i'r broses Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn Abertawe. Ni roddwyd gwybod i Brawf Cymru am hyn i ddechrau, ond, trwy gysylltu da â'r Gwasanaethau Plant yn Abertawe, cafodd gofnodion y cyfarfod yn ddiweddarach, a ddefnyddiwyd wedyn i lywio gwaith ymddygiad gwybyddol mewn goruchwyliaeth a rheoli risg.

2.51 Aeth Rheolwyr Troseddwy'r i gyfarfodydd Cynhadledd Achos a Grŵp Craidd gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn Abertawe a thynnir sylw at yr ymgysylltu hwn fel enghraifft o arferion da. Yn yr un modd, bu llawer o gysylltu rhwng Prawf Cymru a Gwasanaethau Plant Aylesbury gan fod yna faterion o ran diogelu yn ymwneud ag ymweliadau'r plant â'u tad. Codwyd y rhain gyda'r Gwasanaethau Plant yn Aylesbury gan fod hyn yn groes i'r cynllun amddiffyn plant.

2.52 Yn erbyn y cefndir hwn, adolygodd Prawf Cymru ei ymwneud â Thomson a chadarnhaodd hyn fod ei achos wedi cael ei 'reoli' o ystyried y pryderon ar yr adeg honno mewn perthynas â thrais domestig. Cafodd Thomson ei nodi'n briodol fel risg canolig niwed ar sail y troseddau a'r wybodaeth oedd ar gael i Brawf Cymru ar y pryd. Lle nodir troseddwy'r fel risg canolig niwed difrifol mae yna ddangosyddion adnabyddadwy risg niwed difrifol. Mae gan yr unigolyn y potensial i achosi niwed difrifol ond mae'n annhebygol o wneud hynny oni fo ffactor risg yn newid yn arwyddocaol.

2.53 Drwy gydol y broses goruchwyllo cyfeiriodd Thomson at nifer fawr o bartneriaid a phlant ychwanegol ond roedd yn amharod i ateb pan ofynnwyd iddo am fanylion a gwrthododd roi gwybodaeth lawn i Brawf Cymru. Felly oherwydd y cynildeb hwn â'r gwirionedd llesteiriwyd y broses atgyfeirio, gan fod y dasg o olrhain bodolaeth yr unigolion hyn, yn nhermau pwy oeddent, ble roeddent yn byw ac ati, gydag enw cyntaf yn unig, yn afrealistig.

2.54 Drwy gydol cyfnod rheoli ei Orchmynion Cymunedol, roedd Thomson yn camddefnyddio sylweddau'n rheolaidd. Mae nifer fawr o enghreifftiau o gydweithio agos rhwng Prawf Cymru ac asiantaethau camddefnyddio sylweddau lleol i geisio rheoli ei ymddygiad afreolus; mae hyn yn dangos arferion da. Hefyd mae tystiolaeth o rannu cuddwybodaeth am ei ymddygiad oedd yn gysylltiedig â'r diwylliant cyffuriau ac achosion o ymddygiad treisgar nad oedd wedi arwain at erlyniad.

2.55 Yn ystod yr adolygiad, daeth yn amlwg mai dim ond cofnod cyfyngedig a rhannol o gollfarnau blaenorol Thomson am droseddau'n ymwneud â thrais oedd gan y gwasanaethau Tai. Roedd ef wedi cael ei asesu nifer o droeon yn dilyn ceisiadau tai/digartrefedd yr oedd wedi'u cyflwyno rhwng 2001 a 2012 a darparwyd llety iddo ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar. Rhoddwyd gwybod i'r gwasanaethau Tai am agweddau ar ei gofnod troseddol, ond yn gyffredinol rhai o'i droseddau llai difrifol oedd y rhain. Mewn perthynas â'r achos penodol hwn, ni phrofodd y wybodaeth goll hon yn arwyddocaol a chyn y llofruddiaeth ni chafwyd unrhyw broblemau arwyddocaol yn ei denantiaeth.

2.56 Fodd bynnag, mae'r Panel yn barnu bod potensial i arwyddion allweddol o drais domestig difrifol gael eu methu mewn achosion eraill, y gellid ei osgoi pe bai gan y gwasanaeth tai wybodaeth fwy cyflawn am yr hanes. Gallai hyn beri risg i staff yr adran tai neu gymdogion ond gallai hefyd olygu na fyddai rhai arwyddion penodol, megis cymydog yn cwyno am sŵn a dadleuon, yn cael eu cymryd mor ddifrifol ag y dylent. Yn gyffredinol mae'r Llysoedd yn rhoi dedfrydau o garchar am y troseddau mwy difrifol a gellid ystyried gwneud pob cais digartrefedd gan unigolion sy'n dychwelyd i'r gymuned leol o garchar yn destun datgeliad llawn o'u hanes troseddol.

2.57 Mae'r ffaith fod gwasanaethau Tai a darparwyr cymorth tenantiaeth yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd wythnosol y gwasanaeth Rheoli Integredig Troseddwyr newydd yn cynnig cyfle gwerthfawr i oresgyn y gwendidau sy'n amlwg yn eu gwybodaeth am bobl sydd â hanes o droseddu. Ystyrir bod hyn yn bwysig hefyd o safbwynt ehangach Diogelwch Cymunedol.

2.58 Datgelodd y gronoleg gynhwysfawr a manwl a'r Adolygiad Rheoli Unigol a ddarparwyd gan Heddlu Dyfed-Powys am y cyfnod rhwng mis Ebrill 2008 a mis Rhagfyr 2012 fod yna nifer o ddigwyddiadau y bu Thomson yn ymwneud â hwy yn ystod y cyfnod hwn oedd yn galw am ymwneud gan yr Heddlu. At ei gilydd roedd y rhain am amrywiaeth o droseddau lefel is, oedd yn cynnwys lladrad, difrod i eiddo, ymddygiad afreolus, achosion o dorri gorchmynion cymunedol a throseddau'n ymwneud â chyffuriau, ond mae'r rhestr hefyd yn cynnwys ymosodiadau.

2.59 Arweiniodd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau y bu Thomson yn ymwneud â hwy at erlyniad, ond nid pob un. Mae'r dadansoddiad yn cadarnhau y bu gwaith da, at ei gilydd, wrth rannu gwybodaeth rhwng yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ond nid felly y bu bob amser. Cafodd y trefniadau lleol eu cryfhau yn 2012 wrth i'r Heddlu sefydlu'r Uned Atgyfeiriadau Ganolog ond yn sgil yr Adolygiad hwn, maent

yn awgrymu y gellir gwella hyn rhagor trwy gyflwyno trothwy sbarduno ar adeg cadw unigolion yn y ddalfa i roi gwybod i asiantaethau partner sy'n goruchwylio Gorchmynion.

2.60 Mae'r Heddlu wedi ystyried a allai Thomson fod wedi cael ei reoli ar lefel uwch yn y gymuned trwy gael ei gategoreiddio'n Droseddwr Mynych a Chyson. Roedd y tri deg o droseddwr mwyaf cyson yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu rheoli ar lefel uwch mewn modd amlasiantaethol. Y tri deg hyn oedd yn gyfrifol gan fwyaf am faint y trosedd meddiangar yn y sir. Mae'r Heddlu wedi cadarnhau na fyddai Thomson wedi cyrraedd lefel trothwy troseddolrwydd. Roedd y cynllun Troseddwr Mynych a Chyson yn bodoli ar adeg y llofruddiaeth ond erbyn hyn mae wedi cael ei ddisodli gan y gwasanaeth Rheoli Integredig Troseddwr y cyfeiriwyd ato'n gynharach, sydd ar hyn o bryd yn rheoli oddeutu 150 o unigolion yn Sir Gaerfyrddin.

2.61 Nid yw Thomson erioed wedi bod yn destun gwaith monitro uwch mewn perthynas â materion yn ymwneud â Cham-drin Domestig yn ardal Dyfed-Powys. I gael ei enwi ym mhroses Gorchwylion yr Heddlu yn ardal Dyfed-Powys, byddai angen iddo fod wedi ymwneud â Digwyddiad Domestig Risg Uchel yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Yn achos Digwyddiad Risg Uchel y bo'n ymwneud ag ef yn ardal heddlu arall, yna byddai angen i'r heddlu arall hwnnw wneud atgyfeiriad i Heddlu Dyfed-Powys; ni chafwyd yr un.

2.62 Ystyriwyd nodi pa fesurau y gellid fod wedi'u gweithredu pe bai'r heddlu wedi dod i wybod am y berthynas trwy ddigwyddiad o gamdriniaeth ddomestig. Cydnabyddir y gallai digwyddiad domestig lefel is fod wedi arwain at asesiad o risg Canolig neu Safonol na fyddai wedi cael ei gofnodi o dan drefniadau Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg. Mae angen gwella'r ffordd y rhennir gwybodaeth am ddigwyddiadau o'r fath a chynhaliwyd trafodaethau rhagarweiniol gydag asiantaethau partner i drefnu Galwad Gynadledda Camdriniaeth Ddomestig dyddiol. Yn unol â'r un egwyddorion â Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg bydd yn mynd i'r afael â phob digwyddiad o gamdriniaeth ddomestig.

2.63 Mae'r Heddlu hefyd wedi ystyried a fyddai Thomson wedi bod yn addas i gael ei reoli o dan y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPP). Mae gan bob asiantaeth statudol y gallu i atgyfeirio i MAPP. Mae tri chategori MAPP:-

Mae Categori 1 yn ymwneud â Throseddwr Rhyw,

Mae Categori 2 yn ymwneud â Throseddwr Treisgar sydd wedi cael dedfryd o garchar am 12 mis o leiaf.

Troseddwr Categori 3 - Troseddwr sydd wedi cyflawni trosedd yn y gorffennol ac y bernir eu bod yn peri risg niwed difrifol i'r cyhoedd. Mae Thomson yn gymwys ar gyfer MAPP o dan y categori hwn. Fodd bynnag, o ystyried y trothwyon ar gyfer MAPP a'i hanes o

droseddu cyn y dynladdiad, ni fernir bod y rhain yn ddigon difrifol i gyrraedd y trothwy ar gyfer gwaith rheoli amlasiantaethol.

2.64 Fel y dywedwyd ynghynt, mae'r Swyddfa Gartref yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno Marciwr Rhybuddio ychwanegol i dynnu sylw at ad-gyflawnwyr Camdriniaeth Ddomestig. Byddai Thomson yn cael ei gategoreiddio fel cyflawnwr mynych a bydd hyn yn achosi iddo gael marciwr ychwanegol cyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu a elwir marciwr Cyflawnwr Mynych Camdriniaeth Ddomestig os yw marciwr o'r fath yn dod i rym.

2.65 Mae'r Heddlu'n dweud bod yr achos hwn wedi cael ei atgyfeirio at yr IPCC gan ei fod yn dod o dan y meini prawf ar gyfer atgyfeirio gorfodol – fel marwolaeth yn dilyn cysylltiad gan yr heddlu. Fodd bynnag, penderfynodd yr IPCC atgyfeirio'r mater yn ôl i'r Heddlu er mwyn i'r ymchwiliad i'r llofruddiaeth barhau. Nid oedd gweithredu pellach yn ofynnol wedi hynny gan yr Adran Safonau Proffesiynol gan na fu unrhyw fethiannau yn ymateb yr heddlu, y rhoddir crynodeb ohono isod.

2.66 Ychydig cyn 7pm ar y noson cyn i gorff Ann gael ei ddarganfod, cafodd yr Heddlu alwad gan fam dyn oedd yn adnabyddus i Ann yn cwyno am alwad ffôn a negeseuon testun bygythiol yr oedd ei mab wedi'u cael yn ddiweddar gan Thomson. Aeth swyddog heddlu i weld y teulu a chasglodd wybodaeth am natur y bygythiadau hyn. Asesodd y swyddog y rhain a chytunwyd y byddai'r Heddlu'n galw ar Thomson ac yn gofyn iddo roi'r gorau i gysylltu â'r teulu hwn.

2.67 Yr un swyddog heddlu a weithredodd yn sgil y cais hwn ac oddeutu 8pm, aeth i gyfeiriad Thomson. Terfynwyd yr ymweliad hwn oherwydd, er bod Thomson yno, nid agorodd y drws. Roedd ei ymatebion i'r swyddog yn awgrymu ei fod wedi cynhyrfu ac o dan ddylanwad diod a/neu gyffuriau. Roedd y swyddog yn gweithio ar ei phen ei hun a phenderfynodd ddychwelyd i Swyddfa'r Heddlu ac yna mynd yn ôl i'r cyfeiriad gyda swyddog heddlu arall.

2.68 Aethpwyd yn ôl oddeutu 9.15pm ac roedd yr eiddo'n dywyll. Atebodd Thomson ac agorodd y drws ffrynt ond ni allai'r swyddogion heddlu weld y tu mewn i'r eiddo. Nid oedd unrhyw arwydd bod unrhyw un arall yno, ni chlywyd unrhyw leisiau eraill. Dywedwyd wrth Thomson am y pryderon y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt gan deulu'r dyn yr oedd wedi anfon negeseuon testun ato ac yna ei ffonio. Nododd y swyddogion bod ymddygiad Thomson ar yr adeg honno'n ymddangos yn ddigyffro ac nad oedd ei agwedd yn ymosodol. Cafodd ei rybuddio i beidio â chysylltu â theulu'r achwynydd a dywedwyd wrtho nad oeddent eisiau gwneud cwyn ffurfiol yn ei erbyn; roeddent wedi gofyn i'r Heddlu ofyn iddo roi'r gorau iddi. Ymddangosai fod Thomson yn deall y rhybudd a gofynnodd am i'r dyn roi'r gorau i anfon negeseuon testun at Ann.

2.69 Rhoddodd y ddau swyddog heddlu ystyriaeth i olwg Thomson a ffactorau eraill yr oeddent wedi'u nodi ond nid oedd yr un o'r rhain yn awgrymu bod angen iddynt geisio mynd i mewn i'r eiddo. Darganfuwyd corff Ann yn fflat Thomson fore trannoeth. Nid yw'n bosibl dweud o'r adroddiadau patholeg, tystiolaeth ffforensig na thystiolaeth y tystion ar ba

adeg y digwyddodd y llofruddiaeth. Felly, nid yw'n bosibl penderfynu ag unrhyw sicrwydd a oedd Ann wedi cael ei chlwyfo'n angheuol cyn neu ar ôl i'r heddlu alw yno.

2.70 Darparodd yr Heddlu wybodaeth gynhwysfawr sydd wedi cael ei hystyried yn ofalus yn yr Adolygiad hwn. Roedd y deunydd yn cynnwys dadansoddiad llawn o'u hymateb i'r bygythiadau a wnaed i'r teulu oedd wedi cwyno am y negeseuon testun gan Thomson, ynghyd â chopi o'r amserlen fanwl a luniwyd fel rhan o'r ymchwiliad i'r llofruddiaeth. O ran natur y bygythiadau a arweiniodd at roi gwybod i'r heddlu, dywedasant yr ymdrinnir â bygythiadau tebyg fel mater o drefn bob dydd heb gael y canlyniad trasig a welwyd yn yr achos hwn.

2.71 Nid oedd 'marciwr' ar gyfeiriad Thomson a dim byd i nodi bod unrhyw risg oedd wedi'i nodi ar y pryd i ymwelwyr â'r cyfeiriad neu'r bobl oedd yn byw yno. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau cofnodedig yn y cyfeiriad ar ôl i'w denantiaeth ddechrau yn gynnar yn 2012 nac ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar yn mis Medi 2012.

2.72 Nid oedd ei gyfeiriad yn ymddangos mewn unrhyw bryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol o gwmpas adeg y digwyddiad. Mae yna gyfeiriad mewn tystiolaeth gan dyst at y posibilrwydd o godi deiseb i droi Thomson allan; fodd bynnag, ni ddaeth hyn erioed i sylw'r heddlu na'i landlord, Cymdeithas Tai Bro Myrddin. Ni roddwyd gwybod i'r heddlu am bryderon cymdogion am synau trais domestig o'r fflat y noson honno hyd nes i newyddion am y llofruddiaeth dorri drannoeth.

2.73 O ystyried y wybodaeth sylweddol sydd ar gael erbyn hyn ac ymateb yr heddlu, bernir bod y dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad bod gweithredoedd y swyddogion dan sylw ar y noson honno yn briodol ac yn rhesymol.

2.74 Nid oedd llawer o bobl yn gwybod am y berthynas rhwng Ann a Thomson. Roedd Ann wedi cadw tenantiaeth ei chartref ei hun ac mae'n amlwg ei bod wedi bwriadu dychwelyd i'w chyfeiriad ei hun y noson dyngedfennol honno i fod gyda'i theulu, lle roedd ei nai'n gwarchod ei mab. Y drasiedi yw na ddigwyddodd hynny.

2.75 Nid oedd unrhyw waethygu gweladwy yn ymddygiad Thomson fel a fu'n amlwg yn ei orffennol. Ar sail y wybodaeth oedd ar gael, nid oedd unrhyw arwydd na thystiolaeth i awgrymu y byddai'r bygythiad at ffrind Ann yn cael ei droi arni hi.

3.0 MATERION ALLWEDDOL SY'N DEILLIO O'R ADOLYGIAD

- a. Y mater trawsbynciol mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r Adolygiad ac sy'n effeithio ar yr holl asiantaethau a gyfrannodd yw'r angen i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu'n gyson ac fel mater o drefn gydag asiantaethau partner. Er bod yr Adolygiad wedi gweld llawer o dystiolaeth o waith da wrth rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau lleol, mae hefyd wedi canfod, mewn perthynas â Thomson, y bu rhai methiannau yn y maes hwn, ac mae'n bwysig mynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd y wybodaeth a roddwyd i asiantaethau camddefnyddio sylweddau yn 2012 pan gafodd Thomson ei ryddhau o'r carchar yn anghyflawn a hefyd yn gamarweiniol iawn. Cododd sefyllfa debyg gyda'r Gwasanaethau Tai y

flwyddyn gynt. Mae cynlluniau ymyriadau gwasanaeth o ansawdd da ac asesiadau risg effeithiol yn dibynnu'n llwyr ar gael gweld gwybodaeth gyflawn a chywir. Ni chymerodd y Gwasanaeth Carchardai ran yn yr Adolygiad ond bydd angen rhywfaint o waith dilynol gyda'r gwasanaeth hwn.

- b. Mae'r gwahaniaeth rhwng y Dull Integredig ar gyfer Asesiad Trylwyr o Gamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru a chanlyniad yr asesiadau risg a wneir gan asiantaethau eraill trwy fethodolegau gwahanol yn destun pryder. Mae angen i asiantaethau lleol edrych ar y potensial i sicrhau mwy o gysondeb yn yr offer Asesu Risg a ddefnyddir ar hyn o bryd.
- c. Mae'r Panel yn barnu bod yna gyfle i asiantaethau nodi rhai unigolion â nodweddion sy'n eu gwneud yn agored i niwed fel y gellir cynnig mwy o gymorth amlasiantaethol iddynt os ydynt yn fwy tebygol o ddiodeff trais domestig (neu wedi'i ddiodeff o'r blaen). Cydnabyddir bod yna heriau wrth benderfynu pa ymyriadau, os o gwbl, a all fod yn briodol, ond mae'r Panel yn credu y dylid ymchwilio'n llawn i hyn mewn modd amlasiantaethol.
- d. Nid oedd Heddlu Dyfed-Powys na'r Gwasanaethau Plant yn Sir Gaerfyrddin yn gwybod am y pryderon a gofnodwyd gan asiantaethau yn ardal gyfagos Abertawe mewn perthynas ag ymddygiad Thomson tuag at ei bartner blaenorol Jane, gan fod y broses Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn canolbwyntio ar y diodeffwr (Jane) a'r man lle'r oedd hi'n byw. Mae hyn yn pwysleisio'r her i asiantaethau o ran pa wybodaeth i'w rhannu pan mae diodeffwyr a chyflawnwyr yn byw mewn ardaloedd gweinyddol gwahanol.
- e. Mae cyfraniadau gan asiantaethau a gymerodd ran yn yr Adolygiad hwn yn nodi bod angen rhagor o hyfforddiant i'r staff ar y technegau a'r dulliau i'w defnyddio pan nad yw unigolion yn 'bwrw eu bol' neu pan maent yn osgoi trafod materion sensitif; mae'n bwysig mynd y tu ôl i'r 'ffrynt' hwn er mwyn gallu asesu a oes angen unrhyw ymyriadau ychwanegol o ran gwasanaeth.
- f. Drwy gydol cyfnod rheoli ei Orchmynion Cymunedol, roedd Thomson yn camddefnyddio sylweddau'n rheolaidd. Mae nifer fawr o enghreifftiau o gydweithio agos rhwng Prawf Cymru ac asiantaethau camddefnyddio sylweddau lleol i geisio rheoli ei ymddygiad afreolus; mae hyn yn dangos arferion da.
- g. Dylai'r awdurdod lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig edrych ar ffyrdd y gallai cofnodion perthnasol o droseddau treisgar, gan gynnwys trais domestig, gael eu canfod a'u cofnodi, pan fo'n briodol, mewn modd a fyddai'n eu galluogi, fel landlord, i weld unrhyw 'arwyddion rhybuddio' a allai ddod i'w sylw yn ystod y denantiaeth fel y gallent gymryd camau priodol yn ôl yr angen.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae asiantaethau unigol wedi nodi'r canlynol:-

Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru

- i. Mae ymwybyddiaeth dda ymysg y tîm ynghylch trais domestig, ac mae hyn wedi'i wreiddio mewn prosesau cynhwysfawr i asesu risg. Mae mecanweithiau da'n bodoli hefyd mewn perthynas â'r broses Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg. Mae hyn wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, nodant na chafwyd unrhyw ddiweddariadau hyfforddiant yn ddiweddar mae'r staff wedi eu mynychu. Mae angen edrych ar ba hyfforddiant addas sydd ar gael.
- ii. Roedd Thomson yn cael ei reoli gan un asiantaeth ar adeg y digwyddiad, ac er na chafwyd digwyddiad arwyddocaol yn ystod y cyfnod olaf o driniaeth (cyn y dynladdiad) a fyddai wedi cyfiawnhau codi'r mater i sylw / cynnwys asiantaethau Cyfiawnder Troseddol, byddai budd mewn cael fforwm / ffordd i rannu gwybodaeth berthnasol, a rheoli'r risgiau ehangach o ran diogelwch cymunedol sy'n gysylltiedig ag unigolion a allai fod yn dreisgar. Byddai hyn yn sicrhau nad yw unigolion yn diflannu o olwg gwasanaethau ac yn galluogi asiantaethau i ystyried sut i reoli defnyddwyr gwasanaethau o safbwynt amlasiantaethol nad ydynt o bosibl yn bodloni meini prawf rhaglenni gwarchod y gymuned ond sy'n dal i fod â'r potensial i achosi niwed.

Kaleidoscope

- iii. Y brif wers a ddysgwyd yw'r angen i weithwyr proffesiynol gydnabod eu bod yn wynebu problem gymhleth sy'n ymwneud â thrais domestig a chamddefnyddio sylweddau a phryderon ynghylch iechyd meddwl a'r angen inni gynllunio'n unol â hynny.
- iv. Yr angen am hyfforddiant ac addysg rheolaidd ymysg gwasanaethau, yn canolbwyntio'n arbennig ar adnabod arwyddion posibl camdriniaeth ddomestig a chamddefnyddio sylweddau ac amddiffyn plant. Mae angen i weithwyr proffesiynol ddod yn fwy ymwybodol o rym eu rôl, a'i ddefnyddio i ddiogelu eu cleifion.

Heddlu Dyfed-Powys

- v. Mae'r Heddlu'n nodi bod mater plant yn dod i'r ddalfa wedi bod yn destun adolygiadau ar nifer o achlysuron. Cydnabyddir ei fod yn ffordd bosibl o adnabod plant sydd mewn perygl o gam-drin neu gam-fanteisio, e.e. cael eu gorfodi i ddwyn o siopau, pwysau gan gyfoedion mewn ymosodiadau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ati. Mae yna ganllawiau ynghylch Uned Diogelu'r Cyhoedd yn adolygu'r system cadw yn y ddalfa, ond dim cyfarwyddeb.
- vi. Byddai'n ddoeth i swyddogion gyflawni gwiriad cudd-wybodaeth ar y sawl sydd dan amheuaeth / y cyfeiriad, i wirio a yw'n dreisgar / wedi dianc / yn ddefnyddiwr cyffuriau / yn heintus / yn dioddef â phroblem iechyd meddwl / yn debygol o beidio â dod i swyddfa'r heddlu – e.e. rhywun sy'n torri mechniaeth.
- vii. Ar lefel Cymru a Lloegr cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref yn ddiweddar bod Cynllun Datgelu Trais Domestig newydd yn cael ei gyflwyno ledled Cymru a Lloegr yn dilyn llwyddiant y cynlluniau pilot yn ardaloedd rhai heddluoedd gan gynnwys Heddlu Gwent. Mae'r cynllun, a adwaenir fel "Cyfraith Clare", yn cynnig ffordd o

wneud cais am wybodaeth am gyflawnwyr os oes pryderon ynghylch camdriniaeth ddomestig flaenorol. O dan y cynllun, bydd dynion a menywod yn gallu gwneud cais am wiriad ar bartner maent yn dechrau “perthynas glos” gydag ef / gyda hi. Mae hyn yn cynyddu’r posibilrwydd o ddatgelu, sy’n bodoli o dan y Gyfraith Gyffredin a’r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn yn unig ar hyn o bryd. Caniateir ceisiadau hefyd gan aelodau o’r teulu, ffrindiau a chymdogion ar ran person arall os oes ganddynt ofn “rhesymol” y gallai hwnnw neu honno fod mewn perygl. Mae hefyd yn rhoi i’r heddlu ac asiantaethau lleol eraill y pŵer i fynd ati i ddatgelu hanes o’r fath os ydynt yn teimlo y gallai rhywun fod mewn perygl. Mae hwn yn ddatblygiad pwysig ac mae ganddo’r potensial i roi cymorth sylweddol i deuluoedd sydd â phryderon eisoes am bartner un o’u perthnasau.

The Wallich

- viii. Maent yn esbonio bod eu gwasanaeth yn ategol i driniaeth am gamddefnyddio sylweddau a bod cyd-adolygiadau rheolaidd yn sylfaenol i’r gwaith o ddarparu’r gwasanaeth. Maent yn cydnabod na chyflawnwyd cyd-adolygiadau ffurfiol rhwng The Wallich, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru ac Ann yn unol â manyleb y gwasanaeth ar wahân i’r asesiad cychwynnol ac wrth ei rhyddhau o Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru. Maent yn cydnabod bod angen ailedrych ar rôl y cydgysylltydd gofal a bod angen i’r ddau wasanaeth gryfhau gweithdrefnau cydweithio a chyd-adolygu.

Prawf

- ix. Roedd nifer o adegau lle gellid bod wedi cymryd camau gorfodi yn ystod y cyfnod 14/1/09 i 20/6/12. Roedd yr achosion o oedi’n ymgais i roi pob cyfle i Thomson gydymffurfio ac ymgysylltu’n llwyr. Fodd bynnag, cyfrifoldeb Rheolwr y Tîm oedd cadarnhau priodoldeb ymgysylltu dros orfodi.
- x. Hefyd mae adegau yn ystod y cyfnod 14/1/09 i 20/6/12 pan na chafodd adolygiadau’r System Asesu Troseddwyr eu cwblhau yn unol â’r amserlenni a ddisgwyllir gan Brawf Cymru ac mae hwn yn faes lle gellir gwella. Mae Prawf Cymru wedi newid ei arferion mewn perthynas â chwblhau asesiadau’r System Asesu Troseddwyr. O’r blaen byddid yn disgwyl i’r adolygiadau hyn gael eu cwblhau ar adegau penodol trwy asesiad hyd yn oed os na fu unrhyw newidiadau sylweddol i risg neu angen. Erbyn hyn caiff hyn ei seilio ar farn broffesiynol y rheolwr troseddwyr.
- xi. Tra roedd yn cael ei oruchwylio yn ystod y cyfnod 14/1/09 – 20/6/12, cyfeiriodd Thomson at fod mewn perthnasoedd newydd ond nid oedd yn fodlon rhoi manylion cywir i’w Reolwr Troseddwyr. Nid yw pwerau Gorchymyn Cymunedol yn darparu unrhyw ffordd o herio’r amharodrwydd hwn i ddatgelu gwybodaeth yn glir ac yn groyw, yn wahanol i’r rhai a geir mewn Trwydded ryddhau o’r carchar. Fodd bynnag,

byddir yn bwrw ymlaen â hyfforddiant mewn sgiliau herio a defnyddio technegau ymddygiad gwybyddol i gael gwybodaeth gan droseddwyr.

- xii. Roedd achosion o oedi sylweddol yn ystod y cyfnod 6/3/09 – 3/9/10 cyn i'r gofrestr trais domestig gael ei mewnbynnu i'r system fewnol rheoli achosion (DELIUS erbyn hyn). Meysydd lle gellir gwella i Brawf Cymru yw, yn gyntaf, sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â'r wybodaeth a geir yn system DELIUS ac yn y System Asesu Troseddwyr. Yn ail, y caiff cofrestri eu diweddarau mewn modd priodol a bod y cofrestri'n adlewyrchu'r risg, rhybudd a larymau rhybuddio ar gyfer yr achos dan sylw.

4.0 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

4.1 Mae'r holl asiantaethau wedi bod ag agwedd agored ac onest at yr Adolygiad hwn. Gwnaethpwyd llawer iawn o waith i ddadansoddi'r dystiolaeth ynghylch ymwneud y gwasanaethau gwahanol ag Ann ac â Thomson. Nid oes unrhyw beth wedi dod i'r golwg i awgrymu y gallai unrhyw un o'r asiantaethau fod wedi rhagweld y digwyddiadau a arweiniodd at farwolaeth Ann. Yn realistig, ni allai'r un o'r asiantaethau fod wedi gwneud unrhyw beth i atal y drasiedi.

4.2 Y prif ganfyddiad o'r adolygiad o ymwneud yr asiantaethau ag Ann yw bod yna dystiolaeth gref o weithio rhyngasiantaethol da ac atgyfeiriadau priodol rhwng gwasanaethau lleol i ddarparu cymorth iddi; roedd y prif rai'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a chymorth tai. Roedd yn galonogol clywed bod y farn a fynegwyd gan ei theulu'n gyson â'r canfyddiad hwn.

4.3 Mae'r Adolygiad hefyd wedi canfod tystiolaeth o weithio rhyngasiantaethol da gyda Thomson, gwaith da wrth rannu gwybodaeth ac arferion da. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir yn gyson ac, fel y nodwyd, mae rhai bylchau wedi cael eu canfod. Mae ystyried yr holl wybodaeth berthnasol hysbys yn bwysig wrth lunio cynlluniau triniaeth gan fod hyn yn arwain at ymyriadau clinigol mwy effeithiol ond mae hefyd yn un o'r rhagofynion ar gyfer Asesiadau Risg da. Mae rhai gwendidau wedi cael eu canfod yn y trefniadau lleol ar gyfer rhannu gwybodaeth mewn perthynas â Thomson; yn anochel cafodd hyn effaith ar ansawdd ac effeithiolrwydd rhai o'r Asesiadau Risg a wnaethpwyd mewn perthynas ag ef.

4.4 Mae cyflwyno'r Gwasanaeth Integredig Rheoli Troseddwyr, a gyd-ddatblygwyd gan Brawf Cymru a Chymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru, yn lleol yn ddiweddar yn gam pwysig a chadarnhaol a fydd yn gwella'r ffordd y rhennir gwybodaeth a thrwy hynny'n gwella'r trefniadau Rheoli Risg sydd ar waith gan asiantaethau lleol. Mae gwaith da wrth rannu gwybodaeth yn fwy tebygol o fodoli pan fo unigolion yn yr asiantaethau gwahanol yn meithrin cysylltiadau anffurfiol cryf. Bydd cyflwyno cyfarfodydd wythnosol Rheoli Integredig Troseddwyr yn helpu i hwyluso hyn ac mae'r Panel yn awgrymu'n gryf y dylai mwy o asiantaethau ymwneud â'r rhain.

4.5 Daeth yn amlwg yn ystod yr Adolygiad bod nifer o asiantaethau eisoes wedi gwneud rhai newidiadau i'w trefniadau darparu gwasanaethau fel rhan o'u cynlluniau parhaus i ddatblygu gwasanaethau h.y. nid o ganlyniad i'r Adolygiad. Fodd bynnag, yn deillio o'r materion allweddol a nodir uchod, mae nifer o'r asiantaethau lleol wedi nodi camau sy'n fewnol i'w sefydliad, yr eir i'r afael â hwy trwy waith rheoli gwasanaethau.

4.6 Rhestrir isod yr argymhellion a wnaed gan y Panel sy'n ymwneud â mwy nag un asiantaeth:-

- i. Mae angen i'r Protocol Rhannu Gwybodaeth drafft ar gyfer Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Sir Gaerfyrddin gael ei adolygu/diweddaru, ei derfynoli a'i weithredu.
- ii. Mae angen i Brococol Trais a Chamdriniaeth Domestig gael ei lunio a'i fabwysiadu gan asiantaethau lleol, sydd hefyd yn creu cysylltiadau â'r prosiect 'Bywydau Diogelach'.
- iii. Sefydlu Galwad Cynadleda Camdriniaeth Ddomestig Ddyddiol yn ardal Dyfed-Powys i rannu gwybodaeth am yr holl ddigwyddiadau o gamdriniaeth ddomestig gydag asiantaethau partner, er mwyn gwirio a rheoli lefel y risg, a gwneud penderfyniadau ynghylch datgelu.
- iv. Adolygu'r offer Asesu Risg a ddefnyddir gan asiantaethau lleol.
- v. Hybu datblygiad y Gwasanaeth Integredig Rheoli Troseddwy'r newydd fel ffordd i gynorthwyo'r gwaith o reoli unigolion o safbwynt amlasiantaethol nad ydynt o bosibl yn bodloni meini prawf rhaglenni gwarchod y gymuned ond sy'n dal i fod â'r potensial i achosi niwed.
- vi. Dylai comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau edrych, mewn modd amlasiantaethol, ar y cyfleoedd i gael mwy o ryngweithio ac ymyriadau posibl, er mwyn canfod a ellir gwneud mwy i gynorthwyo unigolion sydd o bosibl yn agored i drais domestig.
- vii. Os yw anghenion hyfforddiant yn cael eu nodi fel rhan o'r ymateb i unrhyw un o'r gweithredoedd hyn, dylai'r hyfforddiant gael ei ddarparu mewn modd amlasiantaethol.
- viii. Chwilio am ddatrysiad electronig i dynnu sylw at blant sy'n dod i'r ddalfa, i'r Uned Diogelu'r Cyhoedd asesu a oes unrhyw faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant.
- ix. Os yw ymholiad i Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu'n datgelu bodolaeth gorchymyn, megis gorchymyn cymunedol, gorchymyn goruchwylio neu orchymyn arall, wrth i garcharor fynd i'r ddalfa yn ardal Dyfed-Powys, mae asiantaeth arweiniol y gorchymyn i gael ei hysbysu am ei arestio.
- x. Gweithredu a hyrwyddo defnyddio'r Cynllun Datgelu Trais Domestig newydd (Cyfraith Clare) yn dilyn y cyhoeddiad diweddar gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- xi. Pwysu ar Wasanaeth y Carchardai i wella ansawdd y wybodaeth a roddir i asiantaethau lleol pan gaiff carcharorion eu rhyddhau.

NOD

Nod yr Adolygiad Dynladdiad Domestig hwn yw nodi'r materion pwysicaf i roi sylw iddynt wrth ddysgu o'r Dynladdiad hwn a llunio argymhellion a fydd yn cryfhau'r trefniadau sy'n bodoli eisoes.

CWMPAS

- Bydd yr Adolygiad yn edrych ar weithredoedd/ymatebion yr asiantaethau perthnasol rhwng 1^{af} Ebrill 2008 a mis Rhagfyr 2012
- Ystyrir yr adroddiadau ar y treial yn Llys y Goron
- Gofynnir i bob asiantaeth/sefydliad a fu'n ymwneud ag Ann neu â Thomson gyflawni Adolygiad Rheoli Unigol cynhwysfawr o'i ymwneud; caiff pob un o'r Adolygiadau hyn ei gwblhau a'i gynhyrchu yn unol â Chanllawiau'r Swyddfa Gartref
- Rhoddir gwybod i aelodau o'r teulu am y broses a chynigir cyfle iddynt gyfrannu

CYLCH GORCHWYL

Yng nghyd-destun yr uchod, bydd y Panel yn:-

- Nodi pa asiantaethau/sefydliadau a fu'n ymwneud ag Ann a Thomson
- Adolygu eu hymatebion i atgyfeiriadau ac ystyried priodoldeb unrhyw wasanaethau a ddarparwyd
- Ceisio canfod pa asiantaethau/sefydliadau (os o gwbl) oedd y darparwyr gwasanaethau perthnasol ond na fu'n ymwneud ag Ann neu â Thomson
- Adolygu i ba raddau y bu asiantaethau/sefydliadau'n cydweithio wrth ymateb i anghenion ac amgylchiadau Ann a Thomson ill dau
- Ystyried bylchau posibl yn y ddarpariaeth gwasanaethau, ynghyd â rhwystrau posibl i ddefnyddio gwasanaethau
- Ystyried i ba raddau a pha mor ddigonol y rhennir gwybodaeth rhwng asiantaethau lleol yn Sir Gaerfyrddin ac ardaloedd eraill
- Ystyried a gododd unrhyw faterion yn ymwneud â diogelu mewn perthynas â phlant Ann neu blant Thomson
- Nodi meysydd lle mae arferion da

Cynllun Gweithredu i gael ei roi yma ar ôl cael ei gwblhau

Offer/methodolegau Asesu Risg a ddefnyddir gan asiantaethau lleol

Heddlu Dyfed-Powys

Yn defnyddio asesiad risg Cyd-weithredu yn Erbyn Cam-drin Domestig Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu.

Prawf Cymru

Yn defnyddio'r System Asesu Troseddwyr

Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru

Yn defnyddio dogfennau'r Fframwaith Risg Mewnol:-

RF1 – asesiad risg cychwynnol

RF2 – asesiad risg cynhwysfawr

RF3 – cynllun rheoli risg

Prism

Yn defnyddio'r Dull Integredig ar gyfer Asesiad Trylwyr o Gamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru

Kaleidoscope

Yn defnyddio'r Dull Integredig ar gyfer Asesiad Trylwyr o Gamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru

Cyngor Sir Caerfyrddin – Gwasanaeth digartrefedd

Yn defnyddio'r System Asesu Troseddwyr a geir trwy'r Gwasanaethau Prawf / Carchardai Asesiadau Risg o gyfarfodydd MAPPA L2 a 3 ac o Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg.

The Wallich

Yn defnyddio 'Discovery'

Helping Groups to Grow HG2G

Offeryn Mesur Canlyniadau Clinigol mewn Gwerthuso Arferol (CORE)

Rhestr mewn perthynas â chwblhau Adolygiadau Rheoli Unigol

Asiantaeth	Awdur	Sicrhau ansawdd
Bro Myrddin	Tracy Mellor, Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid	Hilary Jones, Prif Weithredwr
Adran Tai Cyngor Sir Caerfyrddin	Chris Beer, Rheolwr Dewisiadau Tai	Les James, Rheolwr Gwasanaethau Tai
Gwasanaethau Plant	Frances Lewis, Rheolwr Gwasanaeth	Stefan Smith, Pennaeth Gwasanaeth
Heddlu Dyfed-Powys	Ditectif Arolygydd Neil Jenkins	Ditectif Brif Arolygydd Anthony Griffiths
Helping Groups to Grow	Kevin Fisher, Prif Weithredwr	Jeremy Corbett, Cadeirydd Helping Groups to Grow
Kaleidoscope	Dr Amrita Amin, Ymarferydd Meddygol	Lisa Kieh, Rheolwr Rhanbarthol
Prism Cymru	Tim Charlton	Melanie Perry, Cyfarwyddwr
Prawf	Mrs Debbie Osowicz, Dirprwy Bennaeth Uned Cyflenwi Leol	Christine Harley, Prif Weithredwr Cynorthwyol
The Wallich	Paul Sheridan, Arweinydd Tîm Sir Gaerfyrddin	Sue Goodman, Rheolwr Rhanbarthol
Turning Point	Jason Smith, Rheolwr Gweithrediadau	Clare Ashton, Rheolwr Gweithrediadau Ardal
Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru - dioddefwr	Gill Phillips, Rheolwr Gwasanaeth	Stuart Moncur, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Sicrwydd, Ansawdd a Gwelliant
Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru - cyflawnwr	Chris Rogers, Rheolwr Prosiect	Gill Phillips, Rheolwr Gwasanaeth